

# Bwletin Gwirfoddolwyr Gaeaf 2019



## Rhifyn Gŵyl y Gaeaf

### *Gweld eisiau eich copi o'r Gofalydd?*

Yn y bwletin diwethaf, gwnaethom ofyn i chi roi gwybod i ni os oeddech eisiau copi o'r Gofalydd. Yn symud ymlaen, ni fyddwn yn archebu unrhyw gopiâu sbâr er mwyn lleihau gwastraff. Rhowch wybod i Julie os hoffech archebu eich copi o'r Gofalydd. Cofiwch y medrwn weld y Gofalydd ar-lein hefyd yn [www.cynnalgofalwyr.org.uk](http://www.cynnalgofalwyr.org.uk).

Archebwch  
eich rhifynnau  
o'r Gofalydd  
heddiw!

Cysylltwch â Julie i archebu eich copi o'r Gofalydd ar:

☎ 01248 370797

✉ [help@carersoutreach.org.uk](mailto:help@carersoutreach.org.uk)

### Grwpiau 2020

Rydym yn gobeithio trefnu arddangosfa o ffotograffau neu bortreadau o ofalwyr yn ystod Wythnos Gofalwyr 2020.

Os oes gennych ddiddordeb gwneud hyn fel gweithgaredd grŵp, cysylltwch â'n Prif Swyddog, Llinos Roberts. Efallai y bydd hi'n medru trefnu i ffotograffydd ymweld â'ch grŵp i wneud sesiwn tynnu lluniau. Neu os ydych chi'n hoffi'r syniad o bortread, rhowch wybod i ni os medrwn helpu â hyn mewn unrhyw ffordd.



Gweler ein cylchlythyr a'n digwyddiadau ar-lein yn [www.cynnalgofalwyr.org.uk](http://www.cynnalgofalwyr.org.uk)



Rhif Elusen Gofrestredig: 1066262



# Cyfarchion y tymor



## Newyddion codi arian

Daliwch ati i anfon eich syniadau codi arian atom.

Mae Tina a'r tîm codi arian sy'n rhedeg y stondin yn Ysbyty Gwynedd yn dweud bod y stondin yn llwyddiannus iawn. Hyd yn hyn eleni, rydym wedi codi dros dri chan punt!

Codwyd bron i dri chant o bunnoedd mewn noson codi arian gyda menywod Soroptimyddion Bangor. Rhoddodd yr arbenigwr Hyder mewn Lliw, Sonya Williams, gyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth i ni am y gwahanol liwiau a'r gwahanol fathau o gyrrff.

Llawer o ddiolch i Eirwen Jones o Soroptimyddion Bangor am drefnu'r noson codi arian hon er budd Cynnal Gofalwyr.

#Goleuwcheichbywyd

## Beth sy'n newydd?

Bydd gwirfoddolwyr yng Ngwynedd yn falch o glywed fod babi Delyth Kerr, ein Swyddog Allgymorth a Datblygu, wedi cyrraedd yn ddiogel – hogyn bach o'r enw Aled. Mae Delyth wedi trefnu siaradwyr ar gyfer y grwpiau yn ystod ei chyfnod mamolaeth, felly dim newid i'r drefn.

Fe wnaeth Laura briodi'r gŵr hyfryd, Michael, ym mis Medi. Dymunwn yn dda iddyn nhw i'r dyfodol.

Mae Ella wedi dechrau gweithio gyda ni ac mae'n brysur yn ateb y ffon yn swyddfa Bangor, felly os byddwch yn ein ffonio gyda manylion eich grŵp, mae'n bosibl y cewch gyfle i siarad â hi.



**Annwyl Dîm**  
**Rydych chi'n**  
**Anhygoel**  
**Daliwch ati â'r**  
**gwaith bendigedig!**

## Cofiwch

Cofiwch anfon ffigurau mynychu eich grŵp a'ch oriau gwirfoddoli atom. Gallwch eu rhoi i'ch cyswllt rheolaidd neu i Julie yn swyddfa Bangor. Neu gallwch ofyn am ffurflenni a labeli rhadbost a'u postio atom.